

Hysbysiad o apêl

Gwneud cais i farnwr o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (y Siambr Dreth) benderfynu ar anghydfod gyda Chyllid a Thollau EM (HMRC), Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBF), Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) neu'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA). Mae pob cyfeiriad at HMRC isod yn cynnwys UKBF, WRA a'r NCA.

[gov.uk/tax-tribunals](https://www.gov.uk/tax-tribunals)

1. Eich manylion

Enw'r cwmni neu'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

Eich enw

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

Llenwch bob cwestiwn yn ei dro oni bai eich bod yn cael cyfarwyddiadau i symud ymlaen i gwestiwn arall.

Bydd y tribiwnlys treth yn anfon gohebiaeth at eich cynrychiolydd, nid atoch chi'n uniongyrchol.

Os bydd yn well gennych i'r tribiwnlys gysylltu trwy e-bost, rhaid ichi nodi cyfeiriad e-bost.

2. Trwy ba gyfrwng yr hoffech i'r tribiwnlys gysylltu â chi?

Trwy e-bost (rhaid ichi nodi cyfeiriad e-bost yng nghwestiwn 1 neu gwestiwn 4)

neu

Drwy'r post

Bydd y tribiwnlys ond yn cysylltu â chi trwy'r gyfrwng o'ch dewis

3. A oes gennych gynrychiolydd?

- Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr sy'n ymarfer yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon
- Cyfreithiwr neu adfocad sy'n ymarfer yn Yr Alban
- Arall (fel asiant treth, cyfrifydd, ffrind neu aelod o'ch teulu)
- Nid oes gennych gynrychiolydd

4. Manylion eich cynrychiolydd

Enw'r cwmni neu sefydliad (os yw'n berthnasol)

Enw'r cynrychiolydd

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

Oni bai bod eich cynrychiolydd yn gyfreithiwr yn fargyfreithiwr neu'n adfocad sy'n ymarfer, rhaid i chi arwyddo'r

datganiad yng nghwestiwn 20 cyn i'ch cynrychiolydd gael unrhyw ohebiaeth.

Os byddwch yn darparu manylion unigolyn sy'n eich cynrychioli, dylech sicrhau ei fod wedi cytuno ichi roi ei fanylion ar y ffurflen.

Os byddwch yn enwebu cynrychiolydd, bydd pob gohebiaeth a dogfen, gan gynnwys hysbysiadu o wrandawriad, yn cael eu hanfon ato ef/ati hi, nid yn uniongyrchol atoch chi.

Os bydd yn well gennych i'r tribiwnlys gysylltu trwy e-bost, rhaid ichi nodi cyfeiriad e-bost.

Os byddwch yn newid eich cynrychiolydd, rhowch wybod i ni ar unwaith, yn ysgrifenedig, er mwyn i ni sicrhau na fydd unrhyw ohebiaeth bellach yn cael ei hanfon at eich cynrychiolydd blaenorol ac i ni gael cyfathrebu'n uniongyrchol â'ch cynrychiolydd newydd

5. A yw eich apêl yn codi o ganlyniad i benderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd?

- Ydy
- Nac ydy

6. Ynghylch beth mae eich apêl? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

A – Treth uniongyrchol

- Treth incwm – gan gynnwys treth a delir trwy hunanasesiad a Thalu wrth Ennill (PAYE)
- Treth Enillion Cyfalaf Treth gorfforaeth
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NI) Cosbau sy'n ymwneud â threth uniongyrchol
- Arall (nodwch y manylion isod)

→ ewch i gwestiwn 7

B – Treth Anuniongyrchol

- Treth ar Werth (TAW) Toll gartref
- Cosbau sy'n ymwneud â threth anuniongyrchol Toll dramor
- Arall (nodwch y manylion isod)

→ ewch i gwestiwn 9

C – Arall

- Hysbysiad gwybodaeth → ewch i gwestiwn 7
- Adennill nwyddau sydd wedi'u hatafael → ewch i gwestiwn 9

7. A wnaethoch chi apelio yn erbyn penderfyniad gwreiddiol HMRC?

- Do → ewch i gwestiwn 8
- Naddo

Cyfeiriwch at y canllaw i gael rhestr lawn o'r mathau o anghydfodau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol, a meysydd eraill sy'n berthnasol i awdurdodaeth y tribiwnlys treth.

Ar gyfer hysbysiadau treth uniongyrchol neu hysbysiadau gwybodaeth, rhaid i chi apelio i HMRC cyn y gallwch apelio i'r tribiwnlys treth.

8. Beth ddigwyddodd ar ôl i chi apelio i HMRC?

- Derbyniais y cynnig i gael adolygiad → ewch i gwestiwn 10
- Gwrthodais y cynnig i gael adolygiad → ewch i gwestiwn 11
- Rwy'n apelio'n uniongyrchol i'r tribiwnlys cyn cael ymateb gan HMRC → ewch i gwestiwn 11
- Roedd fy apêl i HMRC yn hwyr. Rwy'n gwneud cais am ganiatâd i wneud apêl hwyr i HMRC → ewch i gwestiwn 16

Os bydd HMRC yn gwrthod eich apêl am ei bod yn hwyr, gallwch wneud cais i'r tribiwnlys treth am ganiatâd i apelio i HMRC yn hwyr.

9. A gawsoch chi adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol?

- Do → ewch i gwestiwn 10
- Naddo → ewch i gwestiwn 11 (adennill nwyddau sydd wedi'u hatafaelu)
- Naddo. Rwy'n gwneud cais am ganiatâd i ofyn am adolygiad hwyr (ar gyfer adennill nwyddau sydd wedi'u hatafaelu) → ewch i gwestiwn 16

Ar gyfer adennill nwyddau sydd wedi'u hatafaelu, rhaid i chi ofyn i HMRC am adolygiad cyn apelio i'r tribiwnlys. Os yw eich cais yn cael ei wrthod oherwydd ei fod yn hwyr, gallwch wneud cais i'r tribiwnlys i ofyn am adolygiad hwyr.

10. A yw'r adolygiad wedi dod i ben?

- Do. Mae gen i lythyr canlyniad yr adolygiad. → ewch i gwestiwn 11
- Naddo. Rwyf wedi bod yn aros am fwy na 45 diwrnod. → ewch i gwestiwn 11
- Naddo. Rwyf wedi bod yn aros am 44 diwrnod neu lai. **STOP** → gweler nodyn

Ni ellir apelio i'r tribiwnlys treth nes byddech wedi cael llythyr canlyniad yr adolygiad neu nes byddech wedi aros **45 diwrnod neu fwy** heb gael y llythyr canlyniad.

11. Ynghylch beth mae eich anghydfod? (nodwch fanylion am bob un sy'n berthnasol)

- Y swm y mae HMRC yn hawlio gennyf
£ → ewch i gwestiwn 12 (treth anuniongyrchol)
→ ewch i gwestiwn 16 (treth uniongyrchol)
- Y swm mae arnaf eisiau i HMRC ei ad-dalu
£ → ewch i gwestiwn 16
- Cosb neu ordal o
£ → ewch i gwestiwn 16
- Arall (rhochwch fanylion isod)

Edrychwch ar yr hysbysiad gwreiddiol neu lythyr canlyniad yr adolygiad am fanylion eich anghydfod.

→ ewch i gwestiwn 16

12. A ydych wedi talu'r swm y mae HMRC yn honni sy'n ddyledus gennyh? (trethi anuniongyrchol yn unig)

- Do →ewch i gwestiwn 16
- Naddo →ewch i gwestiwn 13

13. A wnaethoch chi ofyn i HMRC a fyddai modd ichi apelio heb dalu'r swm yn gyntaf?

- Do →ewch i gwestiwn 14
- Naddo **STOP** – mae'n rhaid i chi ofyn i HMRC cyn parhau

14. A wnaeth HMRC ganiatáu ichi ohirio talu oherwydd caledi ariannol?

- Do →ewch i gwestiwn 16
- Aros am ymateb →ewch i gwestiwn 16
- Naddo →ewch i gwestiwn 15

15. Pam y byddai talu'r dreth sy'n destun yr anghydfod yn peri caledi ariannol i chi?

r gyfer trethi anuniongyrchol, fel arfer mae'n rhaid ichi dalu unrhyw swm y mae HMRC yn honni sy'n ddyledus cyn ichi apelio. Fodd bynnag, efallai y cewch eich esgusodi oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â chaledi ariannol.

Nid oes rhaid ichi dalu cosb neu ordal cyn y gallwch apelio.

Os bydd talu'r dreth yn peri caledi ariannol, **rhaidd ichi ofyn i HMRC os gallwch ohirio talu** cyn y caniateir i'ch apêl fynd yn ei blaen.

Os nad yw HMRC yn caniatáu ichi ohirio talu, atebwch gwestiwn 14 (neu nodwch resymau mewn dogfen). Bydd y barnwr yn penderfynu a fydd eich apêl yn cael mynd yn ei blaen heb i chi dalu'r swm yn gyntaf.

Os ydych yn aros am benderfyniad a bod HMRC yn eich gwrthod yn hwyrach ymlaen, gallwch wneud cais i'r tribiwnlys ystyried eich achos caledi ariannol bryd hynny.

16. A ydych chi'n apelio i'r tribiwnlys treth o fewn y terfyn amser?

- Ydw. Rwyf o fewn yr amser →ewch i gwestiwn 18
- Nac ydw. Rwy'n hwyr →ewch i gwestiwn 17
- Nid wyf yn siwr →ewch i gwestiwn 17


17. Pam eich bod yn hwyr yn apelio i'r tribiwnlys treth neu pam y byddwch o bosib yn hwyr yn gwneud hynny?

Mae gennych **30 diwrnod calendr** o ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol neu ddyddiad llythyr canlyniad yr adolygiad (neu ddiwedd y cyfnod 45 diwrnod os nad ydych wedi cael llythyr canlyniad yr adolygiad).

Bydd y barnwr yn ystyried eich rhesymau ac unrhyw ymateb gan HMRC. Efallai cynhelir gwrandawriad i benderfynu a fydd eich apêl yn cael mynd yn ei blaen. Os na fyddwch yn cael apelio'n hwyr, byddwch yn cael gwybod pam na allwch wneud hynny.

Gallwch gynnwys dogfen ychwanegol os oes arnoch angen rhagor o le i ysgrifennu.

18. Rhesymau dros apelio



sboniwch yn glir pam eich bod yn apelio, gan nodi'r rhesymau dros bob penderfyniad yr ydych yn ei wrthwynebu. Bydd y barnwr eisiau clywed eich ochr chi.

Gallwch ysgrifennu'r rhesymau yma neu atodi dogfen ategol os oes arnoch angen rhagor o le.

19. Nodwch yn gryno y canlyniad y byddech yn ei ffafrio

Nodwch y canlyniad yr hoffech ei gael yn glir mewn 2-3 brawddeg.

Er enghraifft, os ydych yn anghytuno â dyfarniad dylech ddweud wrthym beth ddylai'r dyfarniad cywir fod yn eich barn chi.

20. Eich gofynion

Os oes gennych chi, neu unrhyw un a fydd yn dod i Dribiwnlys, anabledd, angen penodol neu os oes angen cyfieithydd, nodwch fanylion isod.

21. Rhestr wirio dogfennau

Ticiwch y blwch wrth ymyl y llythyr sydd ynghlwm â'ch apêl.

- Y llythyr hysbysiad gwreiddiol neu'r ddogfen sy'n nodi'r penderfyniad gan gynnwys esboniad o'r penderfyniad(au) rydych yn apelio yn eu herbyn
- Llythyr canlyniad yr adolygiad
Dylech amgáu'r ddogfen hon os cafodd eich achos ei adolygu

Rhestrwch unrhyw ddogfennau eraill rydych wedi'u hamgáu

22. Datganiad gwirionedd

- Trwy lenwi'r Hysbysiad o Apêl hwn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Dreth), credaf fod yr wybodaeth a roddais yn y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- Rwy'n awdurdodi'r cynrychiolydd a enwir yng nghwestiwn 4 i fy nghynrychioli mewn perthynas â bob mater sy'n ymwneud â'r achos hwn. Rwy'n deall y bydd y tribiwnlys dim ond yn cyfathrebu â fy nghynrychiolydd penodedig.

Eich enw

Llofnod

Dyddiad

--	--	--	--	--	--	--	--

23. Ble i anfon y ffurflen ar ôl ei llenwi

Amgwech eich llythyr hysbysiad gwreiddiol, neu lythyr caniatâd yr adolygiad (os ydych wedi cael adolygiad) ac unrhyw ddogfennau ategol. Anfonwch eich ffurflen a'ch dogfennau i:

HM Courts & Tribunals Service
First-tier Tribunal
(Tax Chamber)
PO Box 16972
Birmingham
B16 6TZ

Peidiwch ag anfon mwy nag un copi o'r un apêl (er enghraifft, ar-lein a thrwy'r post) gan fod hyn yn debygol o achosi oedi wrth brosesu'ch apêl.

24. Y camau nesaf

Bydd y tribiwnlys treth yn:

- gwirio eich manylion a gall ofyn i chi am ragor o wybodaeth
- ysgrifennu atoch (neu'ch cynrychiolydd) i gadarnhau'r camau nesaf
- cysylltu ag unrhyw bartïon eraill a gofyn iddynt ymateb

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â'r tribiwnlys treth trwy ffonio 0300 123 1024. Efallai y codir tâl am yr alwad.

Mae gennym daflenni gwybodaeth sy'n darparu cyngor am apeliadau a gwrandawiadau hefyd.

Cewch gopi o'r taflenni hyn ar gais neu ar-lein yn: <https://hmctsformfinder.justice.gov.uk>

Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, e.e. ffont mawr, Braille, neu yn Saesneg, ffoniwch 0300 123 1024. Efallai codir tâl am yr alwad

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: <https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter>

I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024. Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn Testun 18001 0300 790 6234.